


# Crynodeb o’r Cod Ymarfer a’r Rheoliadau ar gyfer Rhanau 3 a 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014




**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**



Mae’r Ddeddf hon am ddyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru.




Mae fersiwn Hawdd ei Darllen o’r Ddeddf ar wefan Llywodraeth Cymru.



Mae angen i bawb yng Nghymru wybod sut i wneud beth mae'r Ddeddf yn dweud.




Mae hyn yn golygu bod angen **Rheoliadau** a **Chod Ymarfer** ar y Ddeddf.


Rheolau yw'r **Rheoliadau.** Mae'r rheolau'n dweud beth sy'n **rhaid** gwneud.




Mae'r **Cod Ymarfer** yn disgrifio sut beth fydd gofal cymdeithasol. Mae rhai pethau yn y **Cod Ymarfer** yn gyngor da. Mae rhai pethau yn y **Cod Ymarfer** yn bethau y mae'n **rhaid** eu gwneud.




Mae'r Ddeddf yn dechrau yn Ebrill 2016.




## Ysgrifennu'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer



Rydyn ni wedi gofyn i lawer o bobl beth ddylen ni ei roi yn y **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer**.



Rydyn ni wedi ysgrifennu peth o'r **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer**.
Nawr rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n meddwl.

**2 Chwefror**

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthon ni beth ydych chi'n meddwl erbyn 2 Chwefror 2015.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byddwn ni'n edrych ar y pethau rydych yn dweud wrthon ni.



Yna byddwn yn mynd â'r **Rheoliadau** i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2015.




Byddwn yn gofyn iddyn nhw gytuno i'r **Rheoliadau.**




Yna bydd gan bawb tan Ebrill 2016 i baratoi i wneud beth mae'r **Rheoliadau** yn dweud.




Rydyn ni dal yn ysgrifennu peth o'r **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer** am rannau eraill o'r Ddeddf.




Byddwn yn gofyn i chi am y rhain ym Mai 2015.




# Rhan 3 o'r Ddeddf

## Gweithio allan beth sydd angen ar rywun




Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau** a **Chod Ymarfer** am sut i weithio allan beth sydd angen ar rywun.



Mae asesiad yn golygu eich bod chi a gweithiwr proffesiynol yn gweithio gyda'ch gilydd i gytuno a oes angen cefnogaeth neu ofal a chefnogaeth arnoch chi.




Mae'r Ddeddf yn dweud pwy sydd â **hawl** i gael asesiad. Mae hawl gyda chi i gael asesiad os yw'r cyngor lleol yn credu efallai bydd angen cefnogaeth neu ofal a chefnogaeth arnoch chi.




Bydd y Ddeddf, y **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer** yn gwneud hi'n haws gweithio allan pa gefnogaeth neu ofal a chefnogaeth sydd angen arnoch chi. Efallai byddwch chi angen:




- y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth



- gwasanaethau gall unrhyw un eu defnyddio




- cynllun cefnogaeth, neu gynllun gofal a chefnogaeth



Mae'n rhaid i bob asesiad edrych ar:



- Beth ydych chi eisiau mewn bywyd



- Beth allai eich stopio rhag cael y bywyd rydych chi eisiau



- Eich amgylchiadau



- Pethau y gallwch chi wneud i chi eich hun




- Unrhyw risgiau




Mae angen asesiad syml ar rai pobl. Mae hyn yn gallu cael ei wneud pan fydd rhywun yn cysylltu â'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.



Bydd angen asesiad mwy ar rai pobl i gael gwybod popeth am eu bywyd.



## Rhan 4 o’r Ddeddf

## Cwrdd ag Anghenion: Cymhwystra







Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau** am bwy sy’n gorfod cael help, pwy sy’n gallu cael Taliadau Uniongyrchol a sut i wneud Cynlluniau Gofal a Chefnogaeth.



Rydyn ni wedi ysgrifennu **Cod Ymarfer** am gwrdd ag anghenion pobl.




Mae’n **rhaid** i gynghorau lleol feddwl sut i gwrdd ag anghenion pobl.

Yna mae’n rhaid iddyn nhw weithio allan os oes **rhaid** iddyn nhw gwrdd ag anghenion y person.



Bydd rhaid i gynghorau lleol feddwl am bob person.



**Nid** yw gweithio allan beth sydd angen ar rywun yr un peth â phenderfynu a yw rhywun yn cael defnyddio gwasanaeth. Mae am benderfynu a yw'r person yna'n gallu gwneud pethau iddyn nhw eu hunain, neu alw ar help gan eraill, neu a oes angen i'r cyngor lleol eu helpu nhw .

Mae'n **rhaid** i gynghorau lleol gwrdd ag anghenion rhywun os:



- Nad yw'r person yn gallu gwneud hyn iddyn nhw eu hunain, hyd yn oed gyda help gan eraill, neu
- os yw'r risgiau'n rhy fawr

  **a**
- cael y gefnogaeth ychwanegol gan y cyngor lleol yw'r unig ffordd i'r person gael bywyd gwell.

Bydd cynghorau lleol yn gwneud hyn drwy wneud cynllun gofal a chefnogaeth i'r person.



Bydd rhaid i gynghorau lleol ddarparu mwy o wasanaethau i bobl sydd angen ychydig bach o help yn unig. Dylai hyn olygu bod angen cynllun gofal a chefnogaeth ar lai o bobl.




## Cynlluniau Gofal a Chefnogaeth







Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau a Chod Ymarfer** am hyn.




Bydd rhywun yn cael cynllun gofal a chefnogaeth **os** mae angen cynllun arnyn nhw i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y gwasanaethau a'r gefnogaeth iawn.



Mae'n **rhaid** i'r cynllun ddweud beth mae rhywun eisiau mewn bywyd, a'r ffordd orau i'w helpu nhw.



Nid ydyn ni wedi dweud bod rhaid i bawb yng Nghymru gael yr un math o gynllun gofal a chefnogaeth.




Y peth pwysicaf yw bod yn rhaid i'r cynllun weithio'n dda i'r person.




Mae'n **rhaid** i'r cynllun gynnwys:




- Y bywyd y mae rhywun eisiau, a sut i'w helpu nhw i gael y bywyd yna




- Beth fydd y person, ei ofalwr, ei deulu, staff a gweithwyr proffesiynol yn gwneud



- Pwy sy'n talu am beth



- Sut i wirio bod y cynllun yn gweithio, a beth i wneud os yw rhywbeth yn mynd o'i le



- Enw'r person fydd yn gwneud i'r cynllun weithio

# Taliadau Uniongyrchol




Taliadau Uniongyrchol yw arian o'r cyngor lleol i drefnu eich gofal a chefnogaeth eich hun. Mae'n rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i chi. Gallwch chi ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol ar gyfer eich gofal a chefnogaeth i gyd, rhan ohono neu ddim ohono.







Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau** sy'n dweud eich bod chi'n gallu defnyddio Taliadau Uniongyrchol am ofal hir dymor, neu os oes problemau cyffuriau neu alcohol gyda chi.



Mae'r Ddeddf yn gwneud yn siŵr y bydd mwy o bobl yn gallu defnyddio Taliadau Uniongyrchol i gael dewis a rheolaeth, a chael bywyd gwell.




Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau** a **Chod Ymarfer** i wneud yn siwr:




- Bod cynghorau lleol yn rhoi Taliadau Uniongyrchol i bobl



- Bod cynghorau lleol yn gadael i bobl ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol mewn ffordd sy'n helpu'r person i fod yn annibynnol a chael rheolaeth




- Gadael i bobl gael help gyda'u Taliad Uniongyrchol os dydyn nhw ddim eisiau rheoli eu harian, neu os dydyn nhw ddim yn gallu rheoli'r arian




- Edrych ar syniadau newydd, fel mentrau cydweithredol Taliadau Uniongyrchol, lle mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio eu Taliadau Uniongyrchol.



- Gwneud yn siŵr bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu trafod gyda rhywun o'r dechrau.




Bydd rheolau newydd i Daliadau Uniongyrchol:




- Gall unrhyw un ag anghenion gofal a chefnogaeth gael Taliadau Uniongyrchol **oni bai** bod y cyngor lleol yn credu na fydd y person yn gallu cwrdd â'i anghenion yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol.



- Bydd pobl yn gallu defnyddio Taliadau Uniongyrchol am unrhyw fath o wasanaeth gan unrhyw fath o ddarparwr.



- Gall person dalu perthnasau yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol os yw'r Cyngor Lleol yn credu mai dyma'r ffordd orau i helpu'r person.




- Mae'n **rhaid** i gynghorau lleol weithio gyda phobl i gael ffyrdd newydd i gwrdd â'u hanghenion